Adroddiad Cyfarfod 09:10:19
'Sgam a Sbam!' – Manon Lloyd Williams

Rydym yn adnabod Manon Lloyd Williams (Manon Jiws) am ei champau yn y byd chwaraeon wrth gwrs. Nid llawer un sy'n ennill cap am chwarae i Gymru fel pêl droediwr ac fel chwaraewr rygbi! Gwyddem hefyd ei bod yn chwaraewr a hyfforddwr hoci, yn rhedeg Ras Yr Wyddfa a Marathon Eryri ymysg pethau eraill.

Ond nid dod i son am hyn wnaeth Manon. Fel rheolwr yn y Gwasanaeth Safonau Masnachol daeth draw i'r gangen i rannu gwybodaeth bwysig ac amserol iawn. Cododd ymwybyddiaeth o sgamio a sgamwyr a phwysleisiodd mor bwysig oedd i ni rannu gwybodaeth am ymdrechion i'n sgamio ar y ffon, drwy'r cyfrifiadur neu ar stepen ein drws. Roedd neges Manon yn drylwyr ac yn hawdd i'w deall - fel hyn gall lai ohonom ddisgyn am y sgâm! Diolchwyd iddi am noson addysgiadol a diddorol gan Mary Wyn Jones.

Cawsom ychydig o newyddion a gwybodaeth gan ein Llywydd Mair Read hefyd. Cydymdeimlwyd yn fawr gydag Eryl Roberts sydd wedi colli chwaer, gyda Mary Wyn Jones sydd wedi colli modryb, a chyda Nan Jones sydd wedi colli tad-yng-nghyfraith. Dymunwyd gwellhad buan i Gwyneth Jones (Pentir) sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty, ac i Anwylyd Jones sydd wedi anafu ei braich.

Llongyfarchiadau i Gwyneth Jones (Fachell) ar ddod yn Llywydd MYW Rhanbarth Arfon a dymunwn yn dda i gangen newydd MYW Llanberis a Nant Peris.

Gwnaed apêl am aelodau i ddod draw i'r Neuadd am 10am ar fore Fercher Hydref 23 er mwyn ymuno gyda'r criw ffyddlon sydd wrthi bob mis yn casglu sbwriel o amgylch y pentref.

Hydref 15 yw diwrnod 'Su'mae!' ac fe dynnwyd llun rhai o'r aelodau i ddathlu hyn.